


Ysgol Ymchwil Gofal Cymdeithasol Cymru

Dogfen Strategaeth



Cenhadaeth:

Bydd Ysgol Ymchwil Gofal Cymdeithasol Cymru yn cyfrannu at gydgyhyrchu parhaus o ran ymchwil ragorol ym maes gofal cymdeithasol sydd yn goleuo a chyfoethogi polisi ac ymarfer gofal cymdeithasol yng Nghymru er mwyn cael effaith gadarnhaol ar les pobl ar draws cwrs bywyd (yn blant, pobl ifanc ac oedolion).

Cynnwys

| | |
|--|----|
| Cenhadaeth: | 0 |
| <i>Adran 1: Rhagymadrodd</i> | 2 |
| <i>Adran 2: Cenhadaeth, Nodau ac Amcanion</i> | 7 |
| <i>Adran 3: Model Gweithredu'r Ysgol</i> | 9 |
| <i>Adran 4: Meysydd Strategaeth</i> | 10 |
| <i>Adran 5: Strwythur Sefydliadol</i> | 20 |
| <i>Adran 6: Llinellau Amser Gweithredu</i> | 21 |

Trosolwg

Mae'r ddogfen hon yn amlinellu'r Strategaeth ar gyfer cyfnod gweithredu cyntaf *Ysgol Ymchwil Gofal Cymdeithasol Cymru* a sefydlwyd gan Lywodraeth Cymru i gyfrannu at gryfder mewn ymchwil gofal cymdeithasol, gyda chymwysiaid yn y byd go iawn ac effaith gadarnhaol ar les pobl yng Nghymru. Mae'r Ysgol yn rhan o seilwaith ehangach Ymchwil Iechyd a Gofal Cymdeithasol Cymru, ac mae canolfan yr Ysgol wedi ei lleoli yng Ngholeg Gwyddorau Dynol ac Iechyd Prifysgol Abertawe. Mae datblygiad yr Ysgol yn ymateb i'r angen am dystiolaeth gredadwy ac amserol ym maes gofal cymdeithasol sy'n ymateb i anghenion sy'n parhau i wasgu o ran y boblogaeth a gwasanaethau, a materion ar gyfer pobl ar draws cwrs bywyd (h.y. plant, pobl ifanc ac oedolion). Gyda chylch gwaith Cymru gyfan, bydd yr Ysgol yn ymateb i natur ddiwylliannol ac economaidd-gymdeithasol unigryw Cymru, ac yn alinio gyda chyd-destun y polisi cyhoeddus Cymreig.

Mae cwmpas y Strategaeth yn gorwedd o fewn paramedrau canllawiau a bennwyd gan Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru, a sefydlodd nodau ac amcanion yr Ysgol. Mae'r canllawiau hyn yn nodi'n glir y bydd *Ysgol Ymchwil Gofal Cymdeithasol Cymru* yn sefydliad ag iddo ffocws Cymru gyfan, gan weithredu ar ryngwyneb y byd academaidd ac ymarfer. Bydd yn adeiladu pontydd rhwng cynhyrchu gwybodaeth gofal cymdeithasol a pholisi ac ymarfer gofal cymdeithasol, yn cyfrannu at ddealltwriaethau o gwestiynau ymchwil critigol ym maes gofal cymdeithasol, a mwyhau ymchwil ragorol sydd yn ymateb iddynt. Mae cynnwys y cyhoedd ac ymgysylltu â hwy yn treiddio drwy holl waith yr Ysgol yn unol â gwerthoedd ac egwyddorion cyd-gynhyrchu.

Mae gan gyrff eraill yng Nghymru gyfrifoldebau cyfunion. Mae gan Gofal Cymdeithasol Cymru gyfrifoldeb deddfwriaethol dros "*Gefnogi datblygiad gallu ymchwil ac ymchwil gymhwysol a chynorthwyo llunwyr polisi yn lleol a chenedlaethol i ddatblygu ymarfer gorau*". Bydd yr Ysgol yn cydweithio'n agos gyda Gofal Cymdeithasol Cymru yn ei waith . Mae seilwaith Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru yn cynnwys canolfannau ymchwil sydd ag agendâu gofal cymdeithasol a swyddogaethau cefnogi ymchwil a datblygu. Mae prifysgolion Cymru hefyd yn cynhyrchu ymchwil gofal cymdeithasol, mobileiddiad gwybodaeth a meithrin gallu gydag arbenigedd penodol (e.e. WISERD (Sefydliad Ymchwil, Data a Methodoleg Gymdeithasol ac Economaidd Cymru), CASCADE (Canolfan Ymchwil a Datblygu Gofal Cymdeithasol Plant), a'r Ganolfan Heneiddio Arloesol (CIA)). Mae strategaeth yr Ysgol yn seiliedig ar y cysyniad o gydweithio gyda'r sefydliadau hyn er mwyn cefnogi a chryfhau ymchwil gofal cymdeithasol ar draws Cymru. Ni fydd yn dyblygu gweithgaredd ymchwil cyfredol.

Paratowyd y ddogfen Strategaeth hon gan yr Athro Fiona Verity gan adeiladu ar waith cyn-gyfarwyddwr yr Ysgol, Yr Athro Judith Phillips.

Darllen y ddogfen hon

Mae'r ddogfen Strategaeth hon yn drosolwg cynhwysfawr o nodau, amcanion a strategaethau'r Ysgol a bydd yn arwain gwaith yr Ysgol. Bydd dogfennau byr at ddefnydd y cyhoedd yn cyfathrebu cyfeiriad strategol yr Ysgol.

Trosolwg Strategol

Mae'r ddogfen Strategaeth hon yn amlinellu cenhadaeth, gwerthoedd a strwythur sefydliadol *Ysgol Ymchwil Gofal Cymdeithasol Cymru* a'r cynlluniau ar gyfer y cyfnod gweithredu cychwynnol. Mae'n dilyn yr ymagwedd a awgrymwyd yn Adroddiad Huxley ar Ymchwil Gofal Cymdeithasol, sef '*symud ymlaen ar sawl ffrynt ar yr un pryd*' [1 tud. 38]. Bydd yr Ysgol yn gweithio mewn tri maes:

1. Annog, hybu a hwyluso rhaglen o ymchwil gofal cymdeithasol sydd wedi ei strwythuro o amgylch 4 thema.
 - a. **Penderfynyddion cymdeithasol anghenion gofal** (ffactorau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol sy'n effeithio ar ofal cymdeithasol);
 - b. **Atal ac ymyrryd yn fuan** (e.e. datblygu cymdeithasol ac ymyriadau yn y gymuned, cynllunio cymdeithasol, modelau integredig)
 - c. **Cyflawni gofal cymdeithasol** (e.e. trefniant y cyflawni, yr ymarfer, gwerthuso, partneriaethau, materion gweithlu);
 - d. **Strwythurau a pholisïau sefydliadol** (e.e. dyrannu adnoddau, integreiddiad, polisi cyhoeddus).
2. Mewn cydweithrediad â Gofal Cymdeithasol Cymru, Canolfan Cymorth Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru a darparwyr ymchwil gymdeithasol gyfredol, cefnogi meithrin gallu ymchwil mewn gofal cymdeithasol er mwyn cryfhau ymchwil a chryfhau galluoedd ymchwilwyr.
3. Cefnogi mobileiddiad gwybodaeth ymchwil ac ymgysylltiad â'r cyhoedd gydag ymchwil gofal cymdeithasol mewn cydweithrediad â'r sefydliadau a enwir uchod.

Beth fydd yr Ysgol yn ei gynnig?

Bydd yr Ysgol o fudd i ymarferwyr gofal cymdeithasol a'r sector gofal cymdeithasol o ran eu cynorthwyo i ddatblygu eu dyheadau ymchwil ac ymarfer ar sail tystiolaeth, a bydd o fudd i ddarparwyr ymchwil wrth eu cefnogi i ymgysylltu gyda'r sector gofal cymdeithasol i ddarparu ymchwil sy'n cyflawni gwahaniaeth gwirioneddol a pharhaus. Mae hyn yn cynnwys ansawdd gofal, a gwelliannau mewn meysydd blaenoriaeth a adnabuwyd. Bydd gweithgareddau'r Ysgol yn goleuo gwelliannau o ran cyflawni gofal cymdeithasol o ansawdd ar gyfer plant, pobl ifanc ac oedolion fel yr amlinellir yn *Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014* gyda'i ffocws ar lesiant, pobl, atal ac integreiddio.

Mae'r angen amlwg i barhau i gryfhau ymchwil gofal cymdeithasol pellgyrhaeddol o safon ar draws Cymru wedi ei ddogfennu'n eang. Mae adroddiadau niferus yn amlygu'r angen am wybodaeth i wella polisi ac ymarfer er mwyn diwallu'r anghenion a'r gofynion gofal cymdeithasol sydd ar gynydd, a chyfyngiadau presennol y tlodi o ran tystiolaeth, tangyllido a chefnogaeth sefydliadol anwastad sydd i ymchwil gofal cymdeithasol [1,2,3]. Dogfen semenol yw Adroddiad Huxley (2009), *Social Care Research Priorities and Capacity in Wales* sydd yn adrodd ar ymgynghoriad a dadansoddiad cynhwysfawr o ymchwil gofal cymdeithasol yng Nghymru. Mae'r adroddiad yma yn argymhell meithrin gallu ymchwil yn arweinyddiaeth 'lleoliadau academaidd ac ymarfer' ar gyfer ymchwil gofal cymdeithasol, a mwy o adnoddau ar gyfer ymchwil gofal cymdeithasol [1, p.v].

Mae cyd-destun ehangach pwysau demograffig ac economaidd-gymdeithasol a'r angen cynyddol am ofal cymdeithasol ochr yn ochr â disgwyliadau sy'n tyfu, cyni a'r toriadau cysylltiedig i gyllidebau gofal cymdeithasol, cyfyngiadau amser a blaenoriaethau sy'n anghyson â'i gilydd i ymarferwyr yn creu heriau penodol i ofal iechyd. Hefyd, mae gan y byd academaidd (a yrrir gan y Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil) ac ymarfer (a yrrir gan werthuso ac ymarfer da) eu hagenda, blaenoriaethau a Dangosyddion Perfformiad Allweddol gwahanol eu hunain ar gyfer ymchwil gofal cymdeithasol. Gall hyn greu sefyllfa e elwir gan Weisman yn 'fydysawdau cyfochrog' o brifysgolion, y sector polisi ac ymarfer a'r cyhoedd ehangach a all gael effaith ar gyfathrebu ymchwil yn effeithiol gan beri camgyfathrebu mewn meysydd ble mae galw am wybodaeth newydd a ffyrdd newydd o weithio [4]. Nod yr Ysgol yw mynd i'r afael â sefyllfa yma unwaith eto a symud ymlaen mewn modd sy'n adeiladu ar ymarfer cyfredol a chryfderau a momentwm ymchwil, yn ogystal â chreu dealltwriaeth newydd ym maes gofal cymdeithasol. Nodir hefyd y bu datblygiadau newydd ym maes ymchwil gofal cymdeithasol yng Nghymru ers Adroddiad Huxley.

Y cyd-destun polisi

Saif *Ysgol Ymchwil Gofal Cymdeithasol Cymru* yng nghyd-destun polisi cyhoeddus Llywodraeth Cymru sy'n cefnogi cryfhau gallu ymchwil mewn gofal cymdeithasol. Ymysg y 'themâu trawsffurfiol' allweddol a adnabwyd gan bolisi Llywodraeth Cymru [5] mae: dull gweithredu sy'n canolbwyntio ar y dinesydd a chanlyniadau personol; cryfhau 'llais a dewis'; ailystyried asesu a rheoli gofal - gosod ymarfer proffesiynol o flaen biwrocratiaeth ormodol; dulliau gweithredu sy'n seiliedig ar asedau a chryfderau; yr agenda integreiddio iechyd a gofal cymdeithasol a datblygiad ymarfer rhyngbroffesiynol; cefnogi atal a lles mewn cymunedau amrywiol. Mae'r themâu yma yn ffurfio rhan o gyd-destun diwylliannol yr Ysgol.

Mae'r themâu trawsffurfiol uchod yma wedi eu corffori i fframweithiau polisi pwysig Llywodraeth Cymru sydd yn sail i'r Strategaeth hon ar gyfer ymchwil gofal cymdeithasol, yn eu plith:

- *Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy: Fframwaith Gweithredu (2011)* sy'n pwysleisio'r angen am dystiolaeth o ansawdd fel bo modd cyflawni'n canlyniadau gorau ar gyfer defnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr a chryfhau ymchwil gofal cymdeithasol fel blaenoriaeth;
- *Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014* gyda phwyslais ar wasanaethau cymdeithasol integredig sydd yn grymuso, yn chwarae rôl ataliol, a yrrir gan ddinasyddion ac sy'n gweithio mewn partneriaeth. Bydd gweithredu'r Ddeddf yn peri canlyniadau ar gyfer y sector gofal cymdeithasol yng Nghymru

- *Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015* gyda ffocws ar gymunedau a gweithio'n gydgyssylltiedig;
- Gofal Iechyd Darbodus gyda phwyslais ar greadigedd, cyd-gynhyrchu a sail tystiolaeth ar gyfer ymarfer a pholisi.

Ymysg mentrau tebyg yn y Deyrnas Unedig mae'r *NIHR School for Social Care Research* yn Lloegr, partneriaeth rhwng prifysgolion blaenllaw a ariennir gan y *National Institute for Health Research*; yr *Institute for Research and Innovation in Social Services (IRISS)* a mentrau eraill yn Yr Alban, a'r *Northern Ireland Social Work Research Strategy (Health and Social Care Board)*.

Mae sefydliadau megis *Social Care Institute for Excellence (SCIE)*, *Making Research Count* (menter i ledaenu ymchwil cydweithredol yn y DU), *Research in Practice (RiP)* a *Research in Practice for Adults (RiPFA)* hefyd yn gweithio i feithrin gallu ymchwil gofal cymdeithasol a datblygu'r gwasanaeth a'r gweithlu. Fel sydd i'w fanylu yn y ddogfen Strategaeth hon, bydd Ysgol Ymchwil Gofal Cymdeithasol Cymru yn archwilio cysylltiadau a chyfleoedd i gydweithio gyda'r mentrau a nodir uchod.

Diffiniadau

Mae ystyrion amrywiol i'r cysyniadau allweddol a ddefnyddir yn nogfen Strategaeth *Ysgol Ymchwil Gofal Cymdeithasol Cymru*. I ddiben y Strategaeth hon defnyddir y diffiniadau canlynol.

Llesiant

Mae *Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014* yn diffinio llesiant yn y modd canlynol:

Ystyr "llesiant" yw llesiant mewn perthynas ag unrhyw un neu rai o'r canlynol:

- (a) iechyd corfforol, iechyd meddwl a llesiant emosiynol;
- (b) amddiffyn rhag camdriniaeth ac esgeulustod;
- (c) addysg, hyfforddiant a gweithgareddau hamdden;
- (d) perthnasoedd domestig, teuluol a phersonol;
- (e) cyfraniad a wneir at y gymdeithas;
- (f) sicrhau hawliau a hawlogaethau;
- (g) llesiant cymdeithasol ac economaidd;
- (h) addasrwydd llety preswyl. [6]

Cydgynhyrchu

Daw'r diffiniad canlynol o ddogfen Iechyd Cyhoeddus Cymru/Cydgynhyrchu Cymru '*A Wêl a Gred*'. Yn y ddogfen hon diffinnir cyd-gynhyrchu fel proses sydd yn "*galluogi dinasyddion a gweithwyr proffesiynol i rannu grym a chydweithio mewn partneriaeth gydradd, i greu cyfleoedd i bobl gael mynediad at gymorth pan fydd arnynt ei angen a chyfrannu at newid cymdeithasol*". [7] Wrth ddefnyddio'r dull cydgynhyrchu bydd yr Ysgol yn tynnu ar egwyddorion craidd Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru o ran ymgysylltiad ac ymglymiad ag ymchwil. Mae'r egwyddorion yma yn pwysleisio pwysigrwydd cynnwys y cyhoedd mewn modd ystyrlon, yn seiliedig ar barch ac atebolrwydd o'r ddwy ochr, gan ddigwydd ar bob cam o'r broses ymchwil. Maent yn tynnu sylw at bwysigrwydd yr angen am dryloywder mewn perthnasau ymchwil ac ar gyfer strategaethau amrywiol i gynnwys y cyhoedd.

Datblygu Polisi ac Ymarfer wedi ei Gyfoethogi gan Dystiolaeth (DEEP)

Bydd gwaith yr Ysgol yn cael ei oleuo gan y dull o Ddatblygu Polisi ac Ymarfer wedi ei Gyfoethogi gan Dystiolaeth (DEEP). Mae'r dull yma yn ymagwedd werthfawrogol, gydweithredol a democrataidd

tuag at ddarganfod, archwilio a defnyddio ymchwil ochr yn ochr â gwybodaeth gyd-destunol i ddatblygu gwasanaeth a gweithlu.

Meithrin gallu ymchwil

Mae meithrin gallu ymchwil yn broses ddeinamig dros amser, sy'n adeiladu ar yr hyn sy'n gweithio'n dda er mwyn cryfhau ymchwil perthnasol o ansawdd sydd yn gwneud gwahaniaeth i bolisi ac ymarfer. Mae hyn yn cynnwys creu'r gallu i ymchwil i ymateb i egin-faterion ac anghenion. Yn *Ysgol Ymchwil Gofal Cymdeithasol Cymru* bydd meithrin gallu yn digwydd ar dair lefel gydberthynol:

- a) *Cryfhau* **Gwybodaeth a galluoedd unigol** i ddefnyddio tystiolaeth ymchwil mewn polisi ac ymarfer, llunio cwestiynau ymchwil ac ymgymryd ag ymchwil (e.e. sgiliau a gwybodaeth gweithlu gofal cymdeithasol, staff y sector gwirfoddol, ymchwilwyr prifysgol);
- b) *Cryfhau* **Galluoedd sefydliadol** i greu a chynnal amgylcheddau ymchwil cymdeithasol sydd wedi eu seilio ar ddulliau ble gall tystiolaeth oleuo polisi ac ymarfer;
- c) *Cryfhau* **Prosesau sefydliadol** i gefnogi agenda ymchwil gofal cymdeithasol parhaus a mobileiddiad gwybodaeth effeithiol (e.e. dyrannu adnoddau, polisiau a gweithdrefnau, cysylltiadau). [9,10,11]

Cenhadaeth

Bydd Ysgol Ymchwil Gofal Cymdeithasol Cymru yn cyfrannu at gyd-gynhyrchu parhaus o ran ymchwil ragorol ym maes gofal cymdeithasol sydd yn goleuo a chyfoethogi polisi ac ymarfer gofal cymdeithasol yng Nghymru er mwyn cael effaith gadarnhaol ar les pobl ar draws cwrs bywyd (yn blant, pobl ifanc ac oedolion).

NOD 1: Arwain a hyrwyddo datblygiad diwylliant o ymchwilfrydedd (research-mindedness), ymarfer a gyfoethogir gan dystiolaeth, a gweithgaredd ymchwil mewn gwasanaethau gofal cymdeithasol yng Nghymru.

AMCANION

1. Gan adeiladu ar waith blaenorol, datblygu a rhoi ar waith fesul cam system o ymarfer uwch mewn gwasanaethau gofal cymdeithasol yng Nghymru a gyfoethogir gan dystiolaeth.
2. Datblygu, rhoi ar waith fesul cam, ac yna mireinio system genedlaethol bwrsol o *Fobileiddiad Gwybodaeth* ymchwil ar gyfer ymchwil gofal cymdeithasol sy'n pontio'r byd academiaidd, polisi ac ymarfer .
3. Gweinyddu rhaglen o grantiau ariannu ymchwil sy'n meithrin gallu, yn benodol ar gyfer ymarferwyr, rheolwyr ac addysgwyr ym maes gofal cymdeithasol.

NOD 2: Hwyluso datblygiad gallu ymchwil gofal cymdeithasol mewn ymarfer a'r maes academiaidd drwy ddarparu arweinyddiaeth.

AMCANION

1. Sefydlu hunaniaeth eglur, gydnabyddedig a chlodfawr.
2. Cydweithio i gefnogi gwell gallu yn y seilwaith sefydliadol sydd ohoni, ymchwilwyr gofal cymdeithasol a'r sector gofal cymdeithasol i gysylltu ag ymchwil ag i gynnal ymchwil.
3. Hwyluso cydweithio, oddi mewn i Gymru a rhwng Cymru a phartneriaid yn y DU ac yn rhyngwladol.

NOD 3: Arwain trwy esiampl wrth hwyluso, datblygu a hyrwyddo cynnwys y cyhoedd mewn ymchwil gofal cymdeithasol yng Nghymru sy'n arloesol, ac sydd wedi ei ymgorffori'n iawn.

AMCANION

1. Hyrwyddo ac annog cynnwys y cyhoedd sy'n weithredol, gwybodus ac arloesol ym mhob agwedd briodol o ymchwil gofal cymdeithasol yng Nghymru.
2. Sicrhau bod defnyddwyr gwasanaeth, gofalwyr a'r cyhoedd ehangach yn ymgysylltu'n llawn ac yn weithredol ym mhob gweithgaredd priodol a strwythurau llywodraethu'r Ysgol.
3. Datblygu'r sail tystiolaeth ar gyfer cynnwys y cyhoedd mewn ymchwil gofal cymdeithasol a gweithgareddau perthynol.
4. Gweithio'n agos gyda Chanolfan Cymorth Ymchwil Iechyd a Gofal i hyrwyddo, datblygu a gwella arbenigedd o ran cynnwys y cyhoedd mewn ymchwil gofal cymdeithasol.

NOD 4: Cyfrannu at adnabod blaenoriaethau ymchwil gofal cymdeithasol a'r bylchau gwybodaeth yng Nghymru, a chynorthwyo'r sector i fynd i'r afael â'r meysydd hynny.

AMCANION

1. Datblygu system Cymru gyfan ar gyfer adnabod blaenoriaethau ymchwil a bylchau mewn gwybodaeth.
2. Gweithio gyda'r sector, gan ganfod ffyrdd o fynd i'r afael â bylchau gwybodaeth a adnabwyd a mwyhau gweithgareddau'r Ysgol drwy fobileiddiad gwybodaeth, ac ymchwil gynradd ac eilaidd.
3. Datblygu rhaglen o ymarfer ac ymchwil sydd yn berthnasol i bolisi (gan sicrhau nad yw'n dyblygu gweithgaredd ymchwil yng Nghanolfannau ac Unedau Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru).

Adran 3: Model Gweithredu'r Ysgol

Mae *Ysgol Ymchwil Gofal Cymdeithasol Cymru* yn adeiladu ar fentrau eraill yng Nghymru, caiff ei oleuo gan gyd-destun polisi cyhoeddus a sefyllfa bresennol ymchwil gofal cymdeithasol ar draws y sector gwasanaethau cymdeithasol ac oddi mewn i sefydliadau ymchwil. Er enghraifft mae ystod o sefydliadau yn ymgymryd â gweithgareddau sy'n ymwneud ag ymchwil gofal cymdeithasol (y llywodraeth, asiantaethau gofal cymdeithasol gwirfoddol a phreifat) defnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr, y cyhoedd yn ehangach, sefydliadau cymunedol ac ymchwilwyr (yn sefydliadau addysg uwch ac ymchwilwyr preifat).

O ystyried nodau lluosog a nifer y rhanddeiliaid allweddol, mae model gweithredu *Ysgol Ymchwil Gofal Cymdeithasol Cymru* yn hanfodol bwysig. Bydd yr Ysgol yn gatalydd ac yn alluogydd ac yn tynnu ar egwyddorion ymchwiliad, meddwl trwy systemau, meithrin gallu, cydweithio a chynnwys, a rhoi gwerth ar wybodaeth o wahanol ffurfiau (gweler Tabl 1). Bydd yr Ysgol yn gweithredu yn ôl model prif ganolfan a lloerennau gyda'r Brif Ganolfan wedi ei lleoli yng Ngholeg y Gwyddorau Dynol ac Iechyd Prifysgol Abertawe. Y staff allweddol yw'r Cyfarwyddwr, yr Uwch Swyddog Prosiect a'r Swyddogion Ymchwil a Datblygu Ymarfer.

Ymysg y rhanddeiliaid allweddol mae:

- Cyngor Gofal Cymru (sydd i newid i Gofal Cymdeithasol Cymru),
- Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC),
- Asiantaeth Gwella'r Gwasanaethau Cymdeithasol (SSIA),
- Comisiynydd Pobl Hŷn a Chomisiynydd Plant Cymru a Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol ar gyfer Cymru,
- Ymchwilwyr gofal cymdeithasol yng Nghymru,
- Awdurdodau lleol,
- Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (ADSS-Cymru),
- Y trydydd sector a sefydliadau megis Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru ac UNISON,
- Canolfannau ac Unedau Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru a seilwaith cyfredol oddi mewn i Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru (H&CRW) ac unedau eraill a ariennir drwy Iechyd a Gofal Cymru,
- Rhwydwaith Cynnwys Pobl, Cydgynhyrchu Cymru, a Chyfranogaeth Cymru,
- Y Sefydliad Gofal Cymdeithasol er Rhagoriaeth (SCIE),
- Y sector preifat megis Fforwm Gofal Cymru,
- Sefydliadau ddaw i'r amlwg ymhen amser.

Bydd cyllid yn cael ei ddyrannu i gefnogi gweithgareddau meithrin gallu, a phrosesau datblygu ymchwil sydd yn cynnwys creu dealltwriaethau ynghylch pa wybodaeth gofal cymdeithasol sydd ei angen, cefnogi ymchwil sy'n seiliedig ar ymarfer a cheisio cyllid i wneud ymchwil. Yn rheiddio o Ganolfan yr Ysgol bydd lloerenni o waith cydweithredol fydd wedi ei negodi gyda sawl partner (h.y. y sector gwasanaethau cymdeithasol, defnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr, y cyhoedd yn ehangach, ymchwilwyr, sefydliadau cymunedol a'r sector preifat). Bydd swyddogaeth ddatblygiadol i'r Ganolfan, a bydd hefyd yn bwynt cyswllt ar gyfer asiantaethau gofal cymdeithasol ac ymchwilwyr o ran sicrhau bod data ymchwil ac arbenigedd methodolegol yn hygyrch, a hwyluso cysylltiadau rhwng ymchwilwyr a meysydd ymarfer gofal cymdeithasol sy'n ymwneud â phlant, pobl ifanc ac oedolion.

Yn ychwanegol at gydweithio oddi mewn i Gymru, bydd partneriaethau a phrosiectau ar y cyd yn cael eu datblygu ar draws y DU er mwyn hyrwyddo 'ymchwil gofal cymdeithasol rhagorol sydd yn goleuo a chyfoethogi polisi ac ymarfer gofal cymdeithasol yng Nghymru'. Er enghraifft, bydd yr Ysgol yn archwilio cysylltiadau gyda sefydliadau sydd ag arbenigedd mewn mobileiddiad gwybodaeth, megis *Making Research Count* (menter gydweithredol yn y DU i ledaenu gwybodaeth), *Research in Practice RiP* a *Research in Practice for Adults (RiPFA)*. Bydd astudiaethau cymharol a cheisiadau ar y cyd yn cael eu gwneud hefyd am gyllid ymchwil allanol. Mewn cydweithrediad â Thîm Diwydiant Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru, byddwn yn bwrw ymlaen â chyfleoedd ar gyfer ymchwil gofal cymdeithasol cymwysedig gyda'r sector preifat.

Tabl 1: Yr egwyddorion sydd yn goleuo gwaith yr Ysgol

- ***Gweithio mewn dull Cymru gyfan*** gan gydnabod unigrywiaeth ddiwylliannol cr amrywiaeth ar draws y wlad
- ***Rhoi gwerth ar y gwanahol ffurfiau ar wybodaeth*** - ymchwil systematig, doethineb ymarferwyr a gwybodaeth sefydliadol a phrofiadau gwirioneddol y bobl sy'n defnyddio gofal a chymorth cymdeithasol a'u teuluoedd
- ***Meithrin gallu*** (lefelau unigol, cyfundrefnol a sefydliadaol)
- ***Ymglymu a chysylltu â phobl Cymru*** mewn ymchwil gofal cymdeithasol gan ddefnyddio egwyddorion craidd Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru wrth ymglymu a chysylltu â'r cyhoedd
- ***Cydweithio a phartneriaethau***
- ***Cymhlethdod a meddwl trwy systemau***

O ystyried dull datblygiadol yr Ysgol, blaenoriaeth Cam 1 yw cysylltu gyda rhanddeiliaid a datblygu trefniadau cydweithredu. Bydd hyn yn cynnwys y canlynol;

1. Cysylltu â siarad gydag ystod o sefydliadau a grwpiau ar draws y sectorau gofal cymdeithasol a'r cymunedau ymchwil ynghylch yr hyn maent yn ei wneud ar hyn o bryd, beth yn eu tyb hwy yw'r anghenion, y materion a ffyrdd o symud ymlaen;
2. Sefydlu cysylltiadau a threfniadau cydweithredu i sicrhau bod y gwaith a wneir o fudd i bawb;
3. Adeiladu ar yr uchod i sicrhau camau a fydd yn datblygu cenhadaeth yr Ysgol i ' *gyfrannu at gyd-gynhyrchu parhaus o ran ymchwil ragorol ym maes gofal cymdeithasol sydd yn goleuo a chyfoethogi polisi ac ymarfer gofal cymdeithasol yng Nghymru*'.

Adran 4: Meysydd Strategaeth

Nod 1: Arwain a hyrwyddo datblygiad diwylliant o ymchwilyfrydedd (research-mindedness), ymarfer sydd wedi ei gyfoethogi gan dystiolaeth, a gweithgaredd ymchwil mewn gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru.

AMCANION

Gan adeiladu ar waith blaenorol, datblygu a rhoi ar waith fesul cam system o ymarfer uwch mewn gwasanaethau gofal cymdeithasol yng Nghymru a gyfoethogir gan dystiolaeth.

Datblygu, rhoi ar waith fesul cam, ac yna mireinio system genedlaethol bwrpasol o Fobileiddiad Gwybodaeth ymchwil ar gyfer ymchwil gofal cymdeithasol sy'n pontio'r byd academaidd, polisi ac ymarfer

Gweinyddu rhaglen o grantiau ariannu ymchwil sy'n meithrin gallu yn benodol ar gyfer ymarferwyr, rheolwyr ac addysgwyr ym maes gofal cymdeithasol.

Mae'r nodau uchod yn pwysleisio ymarfer uwch sydd wedi ei gyfoethogi gan dystiolaeth, mobileiddiad gwybodaeth a meithrin gallu ar gyfer y gweithlu gofal iechyd. *Y canlyniad yw datblygu gweithlu sydd yn fwy ymwybodol o ymchwil ac sydd yn gallu defnyddio ymchwil a thystiolaeth mewn polisi ac ymarfer.* Er mwyn rhoi'r amcanion hyn ar waith bydd yr Ysgol yn gweithio mewn tri maes strategol, fel y manylir isod.

Maes Strategaeth 1: Datblygu Ymarfer a Gyfoethogir gan Dystiolaeth (DEEP)

Bydd yr Ysgol yn ehangu a dyfnhau gwaith y prosiect DEEP a ddatblygwyd drwy bartneriaeth rhwng Cydweithredfa Cymru Dros Ymchwil Academaidd i Ofal Cymdeithasol (ASCC), Y Sefydliad Ymchwil ac Arloesi mewn Gwasanaethau Cymdeithasol (IRISS), Sefydliad Joseph Rowntree (JRF) a chwe safle o ymarfer (pump yng Nghymru ac un yn Yr Alban). Yn arwain y prosiect peilot hwn roedd Prifysgol Abertawe dan arweiniad egwyddorion dialog, ffynonellau gwybodaeth lluosog a chydweithio. Cynhaliwyd prosiect ymchwil weithredu oedd yn werthfawrogol a chyfranogol, tros gyfnod o fwyddyn yng Nghymru a'r Alban¹. Llwyddiant allweddol y dull yma oedd ei fod wedi sefydlu a chanolbwyntio ar yr hyn oedd o bwys i gyfranogwyr (pobl hŷn, gofalwyr, staff, sefydliadau ac ymchwilwyr).

Daeth chwe phrif thema ymchwil wedi dod i'r amlwg o'r ymchwil.

1. Modelau ymarfer ar gyfer rheoli risg yn gytbwys o fewn y sector gofal cymdeithasol sy'n caniatáu cymryd risgiau cadarnhaol a chymryd risg yn seiliedig ar hawliau wrth wneud penderfyniadau ynghylch gofal.
2. Ymarfer sy'n seiliedig ar berthnasau - beth yw hyn yn ymarferol?
3. Modelau ar gyfer datblygu dialog ystyrlon rhwng rhanddeiliaid gofal cymdeithasol amrywiol.
4. Ymagweddau naratif tuag at sicrhau ansawdd, dysgu a datblygu, e.e. casglu a rhannu enghreifftiau o 'eiliadau swynol'.

¹ Mae'r adroddiad gwerthuso llawn a chrynodeb 4-tudalen i'w weld yn:

<http://www.irf.org.uk/publications/developing-evidence-enriched-practice-health-and-social-care-older-people>

5. Goresgyn rhwystrau rhwng 'gwasanaethau cymdeithasol' a chymunedau a mentrau cymdeithasol.
6. Seibiannau byr ystyrllon i gefnogi perthnasau cyd-ddibynnol gofalgar.

Yn ychwanegol at yr uchod, gwelwyd bod angen am gefnogaeth gwerthuso gwasanaethau gofal cymdeithasol, ystorfa hygyrch o offer gwerthuso gofal cymdeithasol, a mynediad at setiau data meintiol sydd yn hygyrch a pherthnasol i ofynion yn sector gofal cymdeithasol.

Gweithgareddau

1) Mireinio'r chwe thema ymchwil. Bydd yr Ysgol yn cydweithio gyda chyfranogwyr y peilotiaid DEEP ar draws Cymru (gyda phob un yn gysylltiedig ag asiantaethau gofal cymdeithasol, grwpiau cymuned, aelodau o'r cyhoedd ac ymchwilwyr prifysgol) i fireinio'r syniadau ymchwil a adnabuwyd. Bydd hyn yn cynnwys 'sesiynau deorfa' cydweithredol mewn lleoliadau ar draws Cymru i ymgymryd â'r canlynol:

- a. 'deor' y cwestiynau ymchwil strategol drwy'r broses ddeorfa;
- b. adnabod llenyddiaeth ymchwil gyfredol a bylchau mewn mobileiddiad gwybodaeth (h.y. yr angen am adolygiadau systematig o dystiolaeth, mecanweithiau trosglwyddo gwybodaeth sy'n addas ar gyfer y cynulleidfaoedd, a gwneud gwell defnydd o setiau data cyfredol);
- c. adnabod y dulliau gorau o ymgymryd ag unrhyw ymchwil ychwanegol, ac anghenion o ran adnoddau;
- d. adnabod partneriaid ymchwil;
- e. Cefnogi'r gwaith o hwyluso ceisiadau am gyllid ymchwil (i ffynonellau ymchwil traddodiadol a hefyd archwilio cyllid cyfatebol fel sy'n briodol).

Yn ychwanegol at yr ymchwilwyr sydd eisoes yn gweithio ar y prosiectau DEEP, bydd ymchwilwyr eraill yn cael eu hadnabod a'u gwahodd i fod yn rhan o'r prosesau datblygu yma. O'r deorfeydd daw cynlluniau gweithredu ar gyfer pob thema ymchwil. Mae'n bosib mai canlyniad hyn fydd ceisiadau ar gyfer cyllid ymchwil, datblygu partneriaethau gyda phrosiectau ymchwil y gellir eu hymestyn (er enghraifft, eu cynnal mewn rhannau eraill o Gymru neu'r DU), ne ffyrdd mwy canolbwyntiedig o ledaenu tystiolaeth ymchwil gyfredol.

2) Bydd yr Ysgol yn lledaenu'r gweithgareddau DEEP. Fel y nodwyd uchod, bu'r rhaglen DEEP yn llwyddiannus o ran ymgysylltu gweithluoedd gwasanaethau cymdeithasol mewn ymarfer sydd wedi ei gyfoethogi gan dystiolaeth. Bydd yr Ysgol yn parhau gyda'r momentwm a grëwyd ac yn parhau i ddatblygu gwaith cyfredol mewn partneriaeth gyda sefydliadau allweddol yn y sector gofal cymdeithasol. Bydd hyn yn digwydd drwy waith datblygu ble mae'r rheoli prosiect yn hyblyg ac ymatebol ac yn cysylltu â chyfleoedd i ymgymryd ag ymchwil mewn gofal cymdeithasol wrth iddynt ddod i'r amlwg. Bydd yr Ysgol, yn ei rôl fel pont rhwng rhydweithiad polisi, ymarfer ac ymchwil yn mynd ati i hwyluso ymchwil ar draws Cymru wrth i'r agendâu ymchwil gofal cymdeithasol ddod i'r amlwg. Bydd hyn yn cynnwys hyfforddiant a chyfleoedd dysgu cysylltiedig yn y dull DEEP fel rhan o ddatblygu gwasanaeth a gweithlu.

3) Cefnogi a gwella diwylliannau ymchwil gofal cymdeithasol. Trwy'r gwaith yma bydd yr Ysgol yn gweithio ac yn cefnogi Gofal Cymdeithasol Gymru, rhaglen Addysg a Dysgu Proffesiynol Parhaus (ADPP) ar draws Cymru, rheolwyr gofal cymdeithasol a gweithwyr cymdeithasol ymgynghorol i ddatblygu diwylliannau a gweithgareddau ymchwil uwch. Bydd hyn yn digwydd yn y lle cyntaf drwy drafodaethau ynghylch cyfleoedd, yr anghenion o ran ymchwil a'r ymarfer ymchwil. O'r ymgynghoriadau yma bydd cwestiynau a materion o bwys yn cael eu hadnabod ynghylch yr hyn sydd ei angen i gefnogi ymchwil, a'r rôl orau ar gyfer yr Ysgol.

- 4) Cefnogaeth i werthuso gwasanaeth gofal cymdeithasol.** Bydd yr Ysgol, gan weithio gyda chydweithwyr, yn datblygu cynigion i ddarparu cefnogaeth i werthuso gofal cymdeithasol ac ystorfa o offer gwerthuso hygyrch ar ofal cymdeithasol. Y broses gyntaf yw cwmpasu'r hyn sydd ar gael ar hyn o bryd ac adnabod y bylchau. Bydd hyn yn cael ei wneud gan weithio gyda rhanddeiliaid allweddol, a bydd yn goleuo adroddiad ar sut i ddatblygu cefnogaeth i werthuso gofal cymdeithasol.
- 5) Setiau data meintiol.** Bydd yr Ysgol yn trafod pa rôl posib sydd iddi mewn perthynas ag ymateb i fylchau a'r gofynion o ran data meintiol hygyrch a pherthnasol ar gyfer gofal cymdeithasol. Er mwyn cwmpasu rôl yr Ysgol bydd trafodaethau yn cael eu cynnal gyda WISERD (h.y. y grŵp thematig Data a Dulliau), Grŵp Hysbyseg Iechyd Prifysgol Abertawe a gynhaliodd Brosiect Cysylltedd Data yn ymwneud â'r Banc Data Cyswllt Diogel Gwybodaeth Ddienw (SAIL), a Chanolfan Ymchwil Data Gweinyddol Cymru, dan arweiniad Coleg Meddygol Prifysgol Abertawe mewn partneriaeth â WISERD.

Maes Strategaeth 2: Adeiladu Ymchwilfrydedd mewn sectorau gofal cymdeithasol

Gweithgareddau

6) Gweinyddu rhaglen meithrin gallu ble mae cyllid datblygu ymchwil yn cael ei ddyrannu i gefnogi meithrin gallu, yn benodol ar gyfer ymarferwyr, rheolwyr, addysgwyr a myfyrwyr gofal cymdeithasol. Bydd hyn yn cael ei oleuo gan ganlyniadau'r trafodaethau gyda rhanddeiliaid, megis Cyngor Gofal Cymru (Gofal Cymdeithasol Cymru), trefnwyr y rhaglen Addysg a Dysgu Proffesiynol Parhaus (ADPP) ar draws Cymru, rheolwyr gofal cymdeithasol a gweithwyr cymdeithasol ymgynghorol. Roedd yr angen i feithrin gallu yn ganfyddiad allweddol yn Ymchwiliad Huxley 2009, ble nodwyd i: 'Lawer o'r ymatebwyr nodi'r angen i fynd i'r afael â materion seilwaith a gallu cyn symud i adnabod themâu ymchwil penodol' [1 tud.27]. Bydd trafodaethau hefyd yn cael eu cynnal gydag unedau/canolfannau sydd â rôl benodol o ran meithrin gallu, megis CASCADE.

Mae sawl mecanwaith posib ar gyfer y meithrin gallu yma megis prynu amser i fyfyrion'n gritigol, prosiectau peilot a sbarduno, cefnogaeth fentora a rhaglenni cyfnewid, prosiectau ymchwil ymarferwyr, ymarfer rhanbarthol a rhwydweithiau ymchwil ayb. Bydd y syniadau yma yn cael eu mireinio drwy drafodaethau gyda rhanddeiliaid. Tasg gynnar arall yw datblygu'r canllawiau ar gyfer defnyddio cyllid yn y maes hwn sydd i'w wneud mewn cydweithrediad ag Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru.

7) Datblygu gweithlu. Bydd yr Ysgol yn gweithio gyda Chyngor Gofal Cymru (Gofal Cymdeithasol Cymru) a Chanolfan Cymorth Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru mewn perthynas â datblygu gweithlu i gryfhau hyfforddiant proffesiynol mewn ymchwil gofal cymdeithasol. Bydd yn tynnu ar ADPP a llwybrau gweithwyr cymdeithasol ymgynghorol gan gysylltu ag ysgoloriaethau ymchwil drwy fentrau'r Cyngor Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol (Rhaglen Hyfforddi Doethurol yr ESRC ac Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru. Mae'n bosib cyflawni partneriaethau pellach gyda llywodraeth leol a sefydliadau trydydd sector o faint, yn dilyn llwyddiant partneriaethau o'r fath yn Rhaglen Hyfforddi Doethurol gyfredol yr ESRC. Bydd pwyslais ar lefel Meistr yn ogystal â lefel Doethurol.

8) Cymuned o ymchwil Gofal Cymdeithasol. Bydd yr Ysgol, mewn partneriaeth ag Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru, yn hwyluso cymuned o ddysg gyda myfyrwyr Menter Gydweithredol Academiaidd Cymru ar gyfer Ymchwil Gofal Cymdeithasol (ASCC) yn hyrwyddwyr ymchwil gofal cymdeithasol, a chysylltiadau gyda'r cohort ehangach o fyfyrwyr ymchwil gyda digwyddiadau ar y cyd ac ati.

Maes Strategaeth 3: Mobileiddiad gwybodaeth ymchwil

Gweithgareddau

9) **Strategaeth weithredu ar gyfer mobileiddiad gwybodaeth ymchwil.** Bydd yr Ysgol yn cysylltu gyda Chanolfan Cymorth Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru a Chyngor Gofal Cymru (Gofal Cymdeithasol Cymru) ynglŷn â'r ffordd orau i'r Ysgol ddatblygu mobileiddiad gwybodaeth ymchwil. Bydd yr ymgynghoriad yma yn goleuo strategaeth weithredu a fydd o bosib yn cynnwys y canlynol:

- Seminarau, hyfforddiant a chyngor ar fobileiddiad gwybodaeth.
- Hwyluso'r gwaith o ledaenu a gweithredu tystiolaeth ymchwil i'r ymarfer mewn modd creadigol, yn benodol drwy'r prosiect DEEP blaenllaw, ond hefyd drwy fentrau eraill.
- Offer a deunyddiau i'w lawrlwlytho (yn ychwanegol at erthyglau a gyhoeddir mewn cyfnodolion a phapurau ymchwil, crynodebau o ganfyddiadau a chyflwyniadau).
- Datblygiad ystorfa o draethodau ac erthyglau ymchwil.
- Datblygu cyfleoedd i fasnacheiddio eiddo deallusol mewn partneriaeth â busnes.

Bydd cynllun cyfathrebu yn cael ei ddatblygu gyda'r tîm cyfathrebu yn y Ganolfan Cymorth Ymchwil Iechyd a Gofal. Bydd y cynllun yn defnyddio'r offer cyfathrebu canlynol:

- *Cyhoeddiadau:* Erthyglau mewn cyfnodolion a adolygir gan gymheiriaid; y wasg ar gyfer y proffesiwn, megis *Community Care*; crynodebau o ganfyddiadau a bwletinâu yn ôl y gynulleidfa;
- *Gwefan:* Bydd y wefan a fydd ar gael ar gyfer y cyhoedd yn cynnwys gwybodaeth berthnasol ar gyfer y cyhoedd, gweithwyr proffesiynol a sefydliadau sy'n darparu gofal cymdeithasol; yn hwyluso'r gwaith o chwilio am bartneriaid ar gyfer ymchwil cydweithredol a chyfleoedd cyllido a mynd i'r afael ag anghenion Canolfannau ac Unedau o ran ymholiadau ynghylch ymchwil gofal cymdeithasol. Bydd deunyddiau ar y we yn cael eu datblygu yn ôl yr angen a bydd yr Ysgol hefyd yn defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol.

NOD 2

Hwyluso datblygiad gallu ymchwil gofal cymdeithasol, mewn ymarfer a'r byd academiaidd drwy ddarparu arweinyddiaeth.

AMCANION

Sefydlu hunaniaeth eglur, gydnabyddedig a chlodfawr.

Cydweithio i gefnogi mwy o allu yn y seilwaith sefydliadol sydd ohoni, gydag ymchwilwyr gofal cymdeithasol a'r sector gofal cymdeithasol i gysylltu ag ymchwil a chynnal ymchwil.

Hwyluso cydweithio yng Nghymru, a rhwng partneriaid yng Nghymru, y DU ac yn rhyngwladol.

Mae'r amcanion yn pwysleisio rôl arweinyddiaeth o ran ymchwil gofal cymdeithasol, gan sefydlu gwelededd uchel fel arweinydd ym maes ymchwil gofal cymdeithasol a meithrin gallu yng Nghymru gyda chysylltiadau cydweithredol ar draws y DU a chyda phartneriaid rhyngwladol.

Maes Strategaeth 4: Gwelededd yr Ysgol

Gweithgareddau

- 1) Sefydlu gwelededd uchel fel arweinydd a hyrwyddwr ymchwil gofal cymdeithasol a meithrin gallu yng Nghymru drwy strategaethau cyfathrebu a thrwy gysylltu gyda sefydliadau partner cydweithredol, adrannau o'r llywodraeth a sefydliadau'r gymdeithas ddinesig. Bydd cyfathrebu yn weithgaredd parhaus ac yn hyn o beth bydd yr Ysgol yn gweithio gyda'r tîm cyfathrebu yn y Ganolfan Cymorth Ymchwil Iechyd a Gofal.
- 2) Bod yn rhan o grwpiau cydgysylltu ymchwil gofal cymdeithasol.
- 3) Hyrwyddo llwyddiant ac effaith yr Ysgol wrth iddi oleuo gwelliannau i'r ffordd y darperir gofal cymdeithasol o safon ar gyfer plant, pobl ifanc ac oedolion.

Maes Strategaeth 5: Gwaith cydweithredol

Gweithgareddau

- 4) Cynllunio a mynd ati i weithio mewn cydweithrediad agos â'r rhwydwaith yng Nghymru o grwpiau a sefydliadau allweddol sy'n weithgar o ran polisi ac ymarfer sydd wedi ei seilio ar dystiolaeth ac ymchwil gofal cymdeithasol. Y partneriaid allweddol fydd Cyngor Gofal Cymru (Gofal Cymdeithasol Cymru) a'r sefydliadau ymchwil sydd yn weithgar ym maes ymchwil gofal cymdeithasol plant, pobl ifanc ac oedolion. Ymysg y rhain mae unedau a chanolfannau a ariennir gan Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru, ac unedau megis WISERD (Sefydliad Ymchwil, Data a Methodoleg Gymdeithasol ac Economaidd Cymru), CASCADE (Canolfan Ymchwil a Datblygiad Gofal Cymdeithasol Plant Cymru), Y Ganolfan Heneiddio Arloesol (CIA). Bydd yr Ysgol yn ceisio cysylltu gydag ymchwilwyr gofal cymdeithasol preifat.
- 5) Bod yn gatalydd i feithrin gallu ymchwil cysylltiedig ag uchafu effaith cyfunol adnoddau ac ymrwymadau cyfredol.
- 6) Bydd perthnasau cydweithredol yn cael eu datblygu a'u cynnal gyda mentrau tebyg yn y Deyrnas Unedig gan weithio ar brosiectau ar y cyd.
- 7) Rhan o'r cydweithio a'r rhwydweithio strategol fydd cysylltiadau gyda chanolfannau rhyngwladol eraill o ragoriaeth.

Maes strategaeth 6: Dylanwadu ar Bolisi Cyhoeddus Gofal Cymdeithasol

Gweithgareddau

- 8) Drwy adrodd cyson, a chysylltu gydag Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru a mecanweithiau eraill, goleuo polisi cyhoeddus a dyrannu adnoddau ym maes ymchwil gofal cymdeithasol. Bydd hyn yn cynnwys gwybodaeth ar yr hyn sy'n digwydd ym maes ymchwil gofal cymdeithasol a gofynion o ran adnoddau a phennu blaenoriaethau i gyflawni rhaglen barhaus o ymchwil ragorol a pherthnasol ym maes gofal cymdeithasol.

NOD : 3

Arwain drwy esiampl wrth hwyluso, datblygu a hyrwyddo cysylltiad arloesol ac ystyrlon y cyhoedd mewn ymchwil gofal cymdeithasol yng Nghymru.

AMCANION

Hyrwyddo ac annog cynnwys y cyhoedd sydd yn weithredol, gwybodus ac arloesol ym mhob agwedd briodol o ymchwil gofal cymdeithasol yng Nghymru.

Sicrhau bod unigolion sy'n derbyn neu sydd â mynediad at ofal neu gefnogaeth, gofalywr a'r cyhoedd ehangach yn cysylltu'n llawn ac yn weithredol â phob gweithgaredd priodol yr Ysgol a'i strwythurau llywodraethu.

Datblygu'r sail tystiolaeth ar gyfer cynnwys y cyhoedd mewn ymchwil gofal cymdeithasol a gweithgareddau perthynol.

Gweithio'n agos gyda Chanolfan Cymorth Ymchwil Iechyd a Gofal i hyrwyddo, datblygu a gwella arbenigedd mewn cynnwys y cyhoedd mewn ymchwil gofal cymdeithasol.

Mae'r amcanion uchod yn pwysleisio ymgysylltiad ac ymglymiad y cyhoedd yng Nghymru gydag ymchwil gofal cymdeithasol gan olygu bod gofyn i'r Ysgol gydweithio gyda Chanolfan Cymorth Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru i hyrwyddo datblygiadau yn y maes hwn. Canlyniad y gwaith yma fydd deilliannau proses ac effaith sy'n cynnwys cyfnerthu'r sail tystiolaeth ar gyfer cynnwys y cyhoedd. Er mwyn rhoi'r nodau hyn ar waith bydd yr Ysgol yn gweithio mewn tri maes strategaeth, fel y manylir isod.

Maes Strategaeth 7: Cynnwys y cyhoedd mewn ymchwil gofal cymdeithasol

Gweithgareddau

- 1) Bydd grŵp cyfeirio yn arwain gwaith yr Ysgol i gynnwys y cyhoedd mewn ymchwil gofal cymdeithasol. Ymysg y cyfranogwyr bydd pobl ifanc ac oedolion. Caiff ei ddatblygu mewn trafodaeth gyda'r grwpiau canlynol:
 - Tîm Cynnwys a Chysylltu â'r Cyhoedd Canolfan Cymorth Ymchwil Iechyd a Gofal Cymdeithasol.
 - Y Rhwydwaith Cynnwys Pobl.
 - Bwrdd Cyflenwi Cyhoeddus Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru.
 - Rhwydwaith Cyd-gynhyrchu Cymru.
 - Cyfranogwyr y prosiect DEEP.
 - Cyfranogwyr eraill a adnabuwyd.
- 2) Mewn cydweithrediad â Chanolfan Cymorth Ymchwil Iechyd a Gofal, casglu dealltwriaeth o dirlun presennol cynnwys y cyhoedd mewn ymchwil gofal cymdeithasol ac ymarfer da. Bydd y gweithgareddau asesu yn goleuo proses o flaenoriaethu meysydd ble gellid datblygu ymglymiad a gweithgareddau cysylltu ymhellach, gan gynnwys ymgymryd ag ymchwil a fydd yn cryfhau'r sail tystiolaeth ar gyfer cynnwys y cyhoedd mewn ymchwil gofal cymdeithasol a gweithgareddau perthynol.
- 3) Datblygu rhaglen barhaus o weithgareddau gan adlewyrchu gosod blaenoriaethau a phrosesau cyfredol yr Ysgol o ymgysylltu â'r cyhoedd. Bydd hyn yn cynnwys dulliau i ennyn diddordeb y cyhoedd yn ddilys a gweithredol wrth osod yr agenda ymchwil a'r prosesau ymchwil mewn lleoliadau prifysgol.

Maes Strategaeth 8: Cynnwys y cyhoedd yng ngweithgareddau a phrosesau'r Ysgol

Gweithgareddau

- 4) Trwy ei fecanweithiau cyfathrebu, bydd yr Ysgol yn sicrhau bod y cyhoedd wedi eu cynnwys ym mhob gweithgaredd priodol a wna'r Ysgol, megis sefydlu arferion da o ran mobileiddiad gwybodaeth ymchwil.

Maes Strategaeth 9: Cynnwys y cyhoedd gyda mobileiddiad gwybodaeth ymchwil

Gweithgareddau

- 5) Gweithio gydag aelodau o'r Grŵp Cyfeirio a nodir uchod i sefydlu proses o gynnwys y cyhoedd yn natblygiad strategaeth trosglwyddo ymchwil yr Ysgol sy'n addas ar gyfer ystod o gynulleidfaoedd a dibenion.
- 6) Defnyddio prosesau dysgu drwy waith gwerthfawrogol a chydweithredol, datblygu strategaethau i gefnogi ymchwilwyr gofal cymdeithasol mewn Prifysgolion yng Nghymru i wellau eu hymagwedd tuag at fobileiddiad gwybodaeth ymchwil a chysylltiad ag egwyddorion craidd Ymchwil Iechyd a Gofal o ran ymgysylltiad ac ymglymiad ag ymchwil.
- 7) Gweithio gyda Chyngor Gofal Cymru (Gofal Cymdeithasol Cymru) ar fobileiddiad gwybodaeth, yn enwedig mewn perthynas â chynhyrchu synthesis tystiolaeth a gwaith y SCIE.
- 8) Ymgymryd â deialogau yn y gymuned i'r cyhoedd drafod a dadlau ynghylch materion sy'n ymwneud â gofal cymdeithasol. Bydd y rhain yn cael eu cynnal mewn lleoliadau rhanbarthol ar draws Cymru, ddwywaith y flwyddyn, gyda Thîm Cynnwys a Chysylltu â'r Cyhoedd Canolfan Cymorth Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru.
- 9) Datblygu gwefan ar gyfer yr Ysgol sydd yn gyfrwng rhyngweithio ddwy ffordd i ledaenu gwybodaeth ymchwil ac i gyfathrebu materion a blaenoriaethau ymchwil gofal cymdeithasol.
- 10) Bydd strategaethau cyfathrebu eraill wedi eu goleuo gan yr angen i gyfathrebu gyda chyhoedd amrywiol, a bydd mewnbyn y Grŵp Cyfeirio yn sail iddynt.
- 11) Cynnal dialog gyda Thîm Cynnwys a Chysylltu â'r Cyhoedd Canolfan Cymorth Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru ynghylch gwarsi i oleuo cysylltiad parhaus y cyhoedd gyda mobileiddiad ymchwil.

NOD 4

Cyfrannu at adnabod blaenoriaethau ymchwil gofal cymdeithasol a bylchau mewn gwybodaeth yng Nghymru, a chynorthwyo'r sector i fynd i'r afael â'r meysydd hynny.

AMCANION

Datblygu system Cymru gyfan o adnabod blaenoriaethau ymchwil a bylchau mewn gwybodaeth.

Gweithio gyda'r sector, gan ganfod ffyrdd o fynd i'r afael â bylchau gwybodaeth a gwella gweithgareddau'r Ysgol drwy fobileiddiad gwybodaeth, ac ymchwil gynradd ac eilaidd.

Datblygu rhaglen o ymchwil sy'n berthnasol i ymarfer a pholisi (gan sicrhau nad yw'n dyblygu gweithgaredd ymchwil yng Nghanolffannau ac Unedau Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru).

Mae'r amcanion uchod yn rhoi pwyslais ar feithrin gallu a chreu system ar gyfer adnabod bylchau gwybodaeth mewn gofal cymdeithasol ac ymateb drwy fobileiddiad gwybodaeth a rhaglen o ymchwil gofal cymdeithasol sy'n nodedig, ac o safon. Tybir y bydd y rhaglen ymchwil gofal cymdeithasol wedi ei llunio ar y themâu canlynol:

- a. **Penderfynyddion cymdeithasol anghenion gofal** (ffactorau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol sy'n effeithio gofal cymdeithasol);
- b. **Atal ac ymyrryd yn fuan** (e.e. datblygu cymunedol ac ymyriadau yn y gymuned; cynllunio cymdeithasol, modelau integredig);
- c. **Cyflawni gofal cymdeithasol** (e.e. trefniant y cyflawni, yr ymarfer, gwerthuso, partneriaethau, materion gweithlu);
- d. **Strwythurau a pholisïau sefydliadol** (e.e. dyraniad adnoddau, integreiddiad, polisi cyhoeddus).

Bydd yr Ysgol yn annog, hybu a hyrwyddo ymchwilwyr gofal cymdeithasol i sicrhau grantiau ymchwil o faint. Yng ngham cyntaf ei gwaith, bydd yr Ysgol yn ymgymryd â phroses ymgynghori gyda pholisi, lleoliadau ymarfer ac ymchwilwyr gan ddefnyddio'r 4 thema uchod fel strwythur i'w harwain. Bydd canlyniadau'r broses ymgynghori yn goleuo rhaglen fanylach o ymchwil a chytundebau cydweithredol, a cheisio cyllid ymchwil. Fel eglurwyd gan Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru, ni fydd y gwaith yma yn dyblygu gweithgaredd ymchwil yng Nghanolffannau ac Unedau Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru.

Y canlyniadau yw datblygu strategaeth ymchwil gofal cymdeithasol cydlynol ac integredig sy'n bwydo i raglen cynllun gwaith a themâu, a sefydlu a chefnogi portffolio o ymchwil gofal cymdeithasol yng Nghymru a 'gydnabyddir yn rhyngwladol' ac sy'n 'arwain y byd' (REF 3 a REF 4).*

Er mwyn gweithredu'r amcanion yma bydd yr Ysgol yn gweithio mewn tri maes strategaeth, fel y manylir isod.

Maes Strategaeth 10: Ymchwil gofal cymdeithasol: asesu bylchau a blaenoriaethau

Gweithgareddau

- 1) Trwy gysylltu a deialog gydag Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru, yn benodol drwy gydweithio gyda'r Ganolfan Gymorth a'u gwaith ar y Gofrestr Ymchwil, mapio a dadansoddi tirlun presennol gweithgaredd ymchwil gofal cymdeithasol ar draws Cymru. Yn fwy penodol, bydd y mapio yma yn adnabod, asesu a blaenoriaethu meysydd ble mae angen gwybodaeth newydd a sut mae modd adeiladu ar hyn a gwella mentrau sydd eisoes yn bodoli.
- 2) Cyfrannu at brosesau sydd gan Gyngor Gofal Cymru (Gofal Cymdeithasol Cymru) ar gyfer asesu blaenoriaethau ymchwil gofal cymdeithasol.

Maes Strategaeth 11: Rhaglen o ymchwil gofal cymdeithasol ar themâu

Gweithgareddau

- 3) Gan ddefnyddio'r pedwar maes thema uchod fel strwythur, datblygu cynllun gwaith o ymchwil gofal cymdeithasol ar themâu ac adnabod prosiectau tymor byr a chanolig sy'n adlewyrchu canlyniadau ymgynghoriad y cam cyntaf. Mae hyn yn cynnwys canlyniadau sesiynau'r ddeorfa a gynhaliwyd drwy brosesau'r prosiect DEEP.
- 4) Bydd grwpiau datblygu ymchwil yn cynorthwyo gyda datblygu syniadau ymchwil, archwilio'r math o ymchwil sydd ei angen, datblygu ceisiadau am gyllid ymchwil, a sicrhau cynnwys y cyhoedd, cydweithio, a strategaethau ar gyfer effaith a mobileiddiad ymchwil.
- 5) Cwmpasu materion allanol a chyfleoedd cyllido i gefnogi blaenoriaethau.
- 6) Paratoi adroddiad manwl i Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru sy'n crynhoi'r ymgynghoriad a'r cynllun gwaith o ymchwil gofal cymdeithasol ar themâu a'r prosiectau tymor byr a chanolig.
- 7) Cefnogi a hwyluso ymchwilwyr gofal cymdeithasol i geisio am gyllid mewn galwadau cenedlaethol a rhyngwladol ar gyfer cyllid (RCUK; UE), a thrwy ddulliau eraill megis cyllid cyfatebol gan asiantaethau. Bydd yr Ysgol hefyd yn ymateb i alwadau penodol gan Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru am ymchwilwyr arbenigol i weithio mewn model consortia i gyflawni ymchwil.

Maes Strategaeth 12: Cryfhau repertoire methodolegol gofal cymdeithasol

Gweithgareddau

- 8) Cydweithio gyda phrifysgolion yng Nghymru i ychwanegu gwerth i'r ysgoloriaethau ymchwil a ddyrennir i bob sefydliad drwy ddarparu dosbarthiadau meistr mewn dulliau ymchwil gofal cymdeithasol ac arweinyddiaeth a mentoriaeth ymchwil sy'n dwyn ynghyd arbenigedd o'r Sefydliadau Addysg Uwch a sefydliadau sy'n seiliedig ar ymarfer.
- 9) Cefnogi datblygiad cymuned weithgar o fyfyrwyr ymchwil gofal cymdeithasol a digwyddiadau i hyrwyddo'u datblygiad. Bydd y gwaith yma yn cysylltu gyda gweithgaredd cyfredol unedau/canolfannau yng Nghymru a mentrau ag iddynt lwybr gofal cymdeithasol.
- 10) Cryfhau repertoire methodolegol ymchwilwyr gofal cymdeithasol drwy gydweithredu i adnabod y bylchau methodolegol, cysylltiadau gyda grwpiau cefnogaeth fethodolegol a datblygu cynllun

gwaith ar gyfer hyfforddiant tros 3 mlynedd gyda Chanolfan Cymorth Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru a rhanddeiliaid eraill fel yr adnabuwyd.

Crynodeb o'r Meysydd Strategaeth

| Meysydd Strategaeth | |
|---|---|
| Nod 1: <i>Maes Strategaeth 1</i> | Datblygu Polisi ac Ymarfer a Gyfoethogir gan Dystiolaeth (DEEP) |
| Nod 1: <i>Maes Strategaeth 2</i> | Adeiladu ymchwilfrydedd mewn sectorau gofal cymdeithasol |
| Nod 1: <i>Maes Strategaeth 3</i> | Mobileiddiad gwybodaeth ymchwil |
| Nod 2: <i>Maes Strategaeth 4</i> | Gwelededd yr Ysgol |
| Nod 2: <i>Maes Strategaeth 5</i> | Gwaith cydweithredol |
| Nod 2: <i>Maes Strategaeth 6</i> | Dylanwadu ar bolisi cyhoeddus gofal cymdeithasol |
| Nod 3: <i>Maes Strategaeth 7</i> | Cynnwys y cyhoedd mewn ymchwil gofal cymdeithasol |
| Nod 3: <i>Maes Strategaeth 8</i> | Cynnwys y cyhoedd yng ngweithgareddau/prosesau'r Ysgol |
| Nod 3: <i>Maes Strategaeth 9</i> | Cynnwys y cyhoedd gyda mobileiddiad gwybodaeth ymchwil |
| Nod 4: <i>Maes Strategaeth 10</i> | Ymchwil gofal cymdeithasol: asesu bylchau a blaenoriaethau |
| Nod 4: <i>Maes Strategaeth 11</i> | Rhaglen o ymchwil gofal cymdeithasol ar themâu |
| Nod 4: <i>Maes Strategaeth 12</i> | Cryfhau repertoire methodolegol gofal cymdeithasol |

Monitro ac adrodd

Bydd fframwaith gwerthuso a monitro yn cael ei datblygu ar gyfer *Ysgol Ymchwil Gofal Cymdeithasol Cymru* i ddangos sut aiff ati i fesur ei bod yn cyflawni ei nodau a'i hamcanion. Dangosyddion posib fyddai:

- Bod mecanweithiau cysylltu effeithiol wedi eu sefydlu rhwng rhanddeiliaid, sectorau gofal cymdeithasol a darparwyr ymchwil.
- Nifer y ceisiadau ymchwil a nifer yr ymarferwyr gofal cymdeithasol sy'n weithgar mewn ymchwil gofal cymdeithasol.
- Nifer yr ymchwilwyr sy'n gweithio gydag ymarferwyr neu wasanaethau gofal cymdeithasol i ledaenu ymchwil a throsi ymchwil i ymarfer.
- Tystiolaeth bod ymchwil gofal cymdeithasol yn cael effaith ar bolisi ac ymarfer.

Bydd mecanweithiau yn cael eu sefydlu i gofnodi gweithgaredd ymchwil a'i ledaenu. Bydd adroddiadau i Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru yn cynnwys adroddiadau chwarterol a blynyddol yn seiliedig ar Ddangosyddion Perfformiad Allweddol.

Bydd yr Ysgol yn cynnal proses fyfyrion a dysgu iteraidd i ddeall yr hyn sydd yn gweithio, y gwersi allweddol mewn meithrin gallu ymchwil gofal cymdeithasol a sut gall y rhain oleuo gwaith parhaus yr Ysgol. Bydd Grŵp Ymgynghorol yr Ysgol yn rhan o'r broses hon .

Adran 5: Strwythur Sefydliadol

Llywodraethu a chydgysylltu

Bydd Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru yn gyfrifol am osod yr agenda ymchwil gofal cymdeithasol a monitro cyflawniad strategaeth yr Ysgol gyda ffocws penodol ar effaith gweithgareddau'r Ysgol drwy fetrigau cytûn.

I oleuo gwaith yr Ysgol bydd **Grŵp Ymgynghorol** yn cael ei sefydlu, sef rhanddeiliaid o'r sector gwasanaethau cymdeithasol, darparwyr ymchwil a'r cyhoedd. Bydd y Grŵp Ymgynghorol yma yn cynghori ar gyfeiriad, gweithgareddau a chyfleoedd yr Ysgol, ac ar effaith. Byddant yn cwrdd yn rheolaidd.

Er mwyn sicrhau cydgysylltu a bod adnoddau yn cael eu defnyddio'n ddarbodus, bydd Cyfarwyddwr yr Ysgol yn eistedd ar y pwyllgorau/grwpiau canlynol.

- Bwrdd Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru.
- Grŵp Cydgysylltu Strategol Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru

Bydd yr Ysgol yn cysylltu'n agos gyda **Chanolfan Cymorth Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru** (e.e. Gwasanaethau Cynllunio a Chynnal Ymchwil, cynnwys a chysylltu â'r cyhoedd, y system ganiatâd, gweithgareddau cyfathrebu, hyfforddiant).

Bydd yr Ysgol yn cysylltu'n agos gyda **Chyngor Gofal Cymru (Gofal Cymdeithasol Cymru)** yn ei waith ar feithrin gallu ymchwil, mobileiddiad gwybodaeth, a pennu blaenoriaethau.

Bydd gan yr Ysgol **aelodau rhwydwaith** neu 'gyfeillion' sydd yn cymryd rhan yng ngweithgareddau'r Ysgol i feithrin a hyrwyddo rhagoriaeth o ran perthnasedd ymchwil gofal cymdeithasol.

Hefyd bydd grwpiau rhanddeiliaid yn cael eu sefydlu fel rhan o'r prosesau datblygu ymchwil a meithrin gallu. Bydd iddynt derfyn amser a byddant yn cynnwys aelodau o'r cyhoedd, unigolion sy'n derbyn gofal neu sydd â mynediad at ofal a gofalwyr, llunwyr polisi ac ymarferwyr ac ymchwilwyr.

Staffio

Cyfarwyddwr: Professor Fiona Verity (0.4FTE)

Uwch Swyddog Prosiect: Richenda Leonard

Swyddog Ymchwil a Datblygu Ymarfer: Nick Andrews

Cymrawd Ymchwil: Dr Alison Orrell

Swyddog Ymchwil a Datblygu Ymarfer: ei leoli yn CASCADE

Adran 6: Llinellau Amser o ran Gweithredu

| Cam 1 (Ebrill 2016-Mawrth 2017) | Canlyniadau |
|--|---|
| <p><u>Mai-Gorffennaf 2016</u></p> <p>Datblygu sefydliadol</p> <p><i>Gweithredu trefniadau Llywodraethu</i></p> <p>Ffurio Grŵp Ymgynghorol yr Ysgol</p> <p><i>Systemau'r ysgol a staffio</i></p> <p>Cyflogi Uwch Swyddog Prosiect</p> <p>Sefydlu swyddfa'r Ysgol</p> <p>Sefydlu systemau a phrosesau'r Ysgol</p> <p>Sefydlu systemau cyfathrebu'r Ysgol</p> <p>Datblygu fframwaith werthuso a monitro</p> <p><i>Cytundebau Canolfan a Lloerenni cydweithredol</i></p> <p>Cynnal cyfarfodydd gyda rhanddeiliaid allweddol a chyd-drafod y gwaith o lunio cytundebau cydweithredol. Bydd hyn yn digwydd drwy'r flwyddyn.</p> <p>Mentrau DEEP</p> <p>Datblygu deorfeydd ymchwil DEEP</p> <p>Datblygu rhaglen o waith parhaus gan gynnwys hyfforddiant</p> <p>Adnabod gofynion cefnogi ar gyfer gwerthuso gofal cymdeithasol</p> | <p>Gweithredu trefniadau Llywodraethu'r Ysgol, hunaniaeth yr Ysgol a systemau a phrosesau'r Ysgol</p> <p>Sefydlu fframwaith gwerthuso a monitro</p> <p>Cytundeb ynghylch trefniadau cydweithredol gyda rhanddeiliaid.</p> <p>Cynllun gweithredu ar gyfer datblygliad parhaus y gwaith DEEP.</p> |
| <p><u>Awst-Rhagfyr 2016</u></p> <p>Ymgynghoriad a mapio tirlun presennol cynnwys y cyhoedd a'u hymgysylltiad â gofal cymdeithasol</p> <p>Datblygu cynllun gweithredu ar gyfer ymgynghori a gwaith mapio gyda Canolfan Cymorth Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru</p> <p>Ymgynghori a mapio</p> <p>Adnabod blaenoriaethau ar gyfer rhaglen weithredu barhaus</p> | <p>Adrodd i Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru ar ganlyniadau'r ymgynghoriad, gosod blaenoriaethau a rhaglen ar gyfer gweithredu parhaus.</p> |

| | |
|--|--|
| <p>Ymgynghori a mapio tirlun presennol ymchwil gofal cymdeithasol ar draws Cymru</p> <p>Datblygu cynllun gweithredu ar gyfer ymgynghori a mapio gyda Chanolfan Cymorth Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru</p> <p>Ymgynghori a mapio</p> <p>Adnabod blaenoriaethau ar gyfer rhaglen barhaus o ymchwil gofal cymdeithasol</p> <p>Adnabod rhanddeiliaid a phartneriaid</p> <p>Sgyrsiau cymunedol mewn lleoliadau rhanbarthol ar draws Cymru</p> <p>Ymgynghoriad ynghylch sut i gefnogi a gwella diwylliannau o ymchwil gofal cymdeithasol</p> <p>Adnabod bylchau methodolegol mewn ymchwil gofal cymdeithasol a'r hyn y gellir ei wneud. Datblygu cynllun datblygu gweithlu.</p> <p>Datblygu strategaeth mobileiddiad gwybodaeth ar gyfer yr Ysgol</p> | |
| <p><u>Ionawr-Mawrth 2017</u></p> <p>Dechrau gweithredu'r camau uchaf eu blaenoriaeth ddaw o'r ymgynghoriadau a'r prosesau mapio.</p> <p>Llunio cynllun gweithredu ar gyfer 2017-2018.</p> | <p>Adrodd i Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru ar strategaeth ymchwil gofal cymdeithasol sy'n gydlynol ac integredig a fydd yn goleuo gwaith dilynol yr Ysgol.</p> |

Cyfeiriadau

- [1] Huxley, P. (2009) *Social care research priorities and capacity in Wales- a consultation exercise Final Report*, Prifysgol Abertawe, Abertawe.
- [2] NISCHR ac AHSC, *Mobilising the use of research into practice for impacts on health and wealth – Recommendations of the AHSC Knowledge Transfer Task and Finish Group to NISCHR*, Llywodraeth Cymru. Tynnwyd o: <http://www.healthandcareresearch.gov.wales/uploads/Policy%20%26%20Strategy/Knowledge%20transfer/NISCHR%20AHSC%20Knowledge%20Transfer%20TF%20Recommendations%20Final.pdf>
- [3] Heneiddio'n Dda yng Nghymru, 2014-2019- *Partneriaeth Arloesedd Ewropeaidd ar Heneiddio Egniol ac Iach*, Tynnwyd o: www.ageingwellinwales.com
- [4] Wiseman, J. (2010) *Dancing with Strangers: Understanding the parallel universes of academic researchers and public sector policy makers*, Occasional Paper No.11, State Government of Victoria Melbourne.
- [5] Llywodraeth Cymru. (2011) *Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy i Gymru: Fframwaith Gweithredu*, Caerdydd.
- [6] *Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014*
http://www.legislation.gov.uk/anaw/2014/4/pdfs/anaw_20140004_en.pdf
- [7] Iechyd Cyhoeddus Cymru/Cydgynhyrchu Cymru. (2015) *A Wêl a Gred*, Caerdydd. Tynnwyd o: <http://www.goodpractice.wales/co-production-catalogue-from-wales>.
- [8] Flyvbjerg, B., Landman, T a Schram S. (2012) *Real Social Science: Applied Phronesis*, Cambridge Press, Y Deyrnas Unedig.
- [9] Yr Adran Dros Ddatblygu Rhyngwladol. (2010) *Capacity Building in Research*, Llundain.
- [10] Cooke, J. (2005) A framework to evaluate research capacity building in healthcare, *BMC Family Practice*, 6 (44), pp. 1-11.
- [11] Verity, F. (2007) *Community Capacity Building: A Review of the Literature*, SA Health Department, Adelaide.